Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad i'r wasg

10 Mehefin 2008

Mae angen cynorthwyo disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol

Heddiw, mae Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru wedi cyhoeddi argymhellion ac enghreifftiau o arfer dda i ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) ynghylch sut i gynorthwyo disgyblion sydd ag anawsterau dysgu cymedrol.

Mae adroddiad Estyn yn edrych ar ansawdd yr addysg i ddysgwyr rhwng 5 ac 16 oed sydd ag anawsterau dysgu cymedrol ac sy'n cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau dynodedig o'r enw canolfannau adnoddau sy'n gysylltiedig ag ysgolion prif ffrwd. Mae gan nifer o'r disgyblion hyn anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu. Yn aml, mae angen cymorth arnynt gyda'u datblygiad cymdeithasol a dysgu sut i reoli eu hymddygiad.

Mae Estyn yn adrodd bod nifer o ddisgyblion yn cael ystod dda o gyfleoedd i gymryd rhan gyda'u cymheiriaid prif ffrwd a bod staff yn cynorthwyo disgyblion yn dda i'w helpu i wneud a chadw ffrindiau yn yr ysgol.

"Yn yr arfer fwyaf effeithiol, roedd arolygwyr yn gweld disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd a chan athrawon pwnc prif ffrwd lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn ogystal â chael cymorth mwy arbenigol. Mae nifer o ddisgyblion yn mynychu dosbarthiadau prif ffrwd am gymaint â 60 y cant o'u hwythnos yn yr ysgol, ac o ganlyniad maent yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau'r ysgol," esboniodd Dr Maxwell, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Ym mwyafrif y canolfannau adnoddau yr ymwelodd Estyn â nhw, mae disgyblion yn cyflawni safonau da neu foddhaol o ran eu dysgu ac yn cael mynediad at ystod briodol o gyfleoedd cwricwlaidd.

Mae mwyafrif y staff yn paratoi disgyblion, ac yn cynnwys rhieni'n llawn, fel y gall disgyblion gael y gorau o symud i addysg brif ffrwd neu symud ymlaen i ganolfannau adnoddau mewn ysgolion uwchradd. Maent yn defnyddio ystod o weithgareddau i helpu disgyblion i ymdopi â'r newidiadau. Maent yn eu cyflwyno i staff allweddol ac yn mynd â nhw ar ymweliadau cyn iddynt symud fel eu bod yn fwy hyderus ac yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

Mae adroddiad Estyn yn awgrymu y dylai ysgolion sydd â chanolfannau adnoddau wella hyfforddiant a chymorth i staff prif ffrwd sydd â disgyblion o ganolfannau adnoddau yn eu gwersi. Ar adegau, canfu Estyn bod staff prif ffrwd yn anfodlon cynnwys y disgyblion hyn yn eu dosbarthiadau gan ei fod yn cynnwys gwaith cynllunio manwl iawn.

Canfu arolygwyr bod mynediad i ddisgyblion at ganolfannau adnoddau yn anghyson ledled Cymru hefyd. Nid oes gan rai AALlau ganolfannau adnoddau ac mae rhai lleoedd gwag yng nghanolfannau adnoddau rhai AALlau. Gall costau cludiant a'r pellter hir o'r cartref i'r ganolfan adnoddau olygu weithiau na all disgyblion fynd at y ddarpariaeth yn rhwydd.

Mae adroddiad Estyn yn argymell y dylai AALlau adolygu eu canolfannau adnoddau, a'r grwpiau o ddisgyblion sydd ynddynt, yn rheolaidd fel y gallant wneud newidiadau priodol i fodloni anghenion newidiol y disgyblion yn eu hardal. Dylai AALlau hefyd ei wneud yn glir i ysgolion yr hyn y maent yn disgwyl iddynt ei darparu ar gyfer y disgyblion hyn.

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

- Comisiynwyd adroddiad Estyn, 'Cymryd rhan', gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Mae Estyn yn arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ac ysgolion. Nid yw'r arolygiadau hyn yn arfarnu ansawdd yr addysg mewn canolfannau adnoddau'n benodol. Caiff unrhyw gyfeiriadau i'w hansawdd eu cynnwys yn yr adrannau am ddarpariaeth AAA mewn adroddiadau arolygu ysgolion.

- Mae'r adroddiad cylch gwaith hwn, 'Cymryd rhan', yn cynnwys barnau ac argymhellion am y canlynol:

    - pa mor dda y mae AALlau yn cynllunio'n strategol i gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer disgyblion sy'n mynychu canolfannau adnoddau;

    - ansawdd y ddarpariaeth a chynhwysiad mewn canolfannau adnoddau; a

    - pha mor dda y mae staff mewn canolfannau adnoddau yn paratoi disgyblion ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.

- Rhwng mis Hydref 2007 a mis Chwefror 2008, cynhaliodd Estyn arolwg o awdurdodau addysg lleol a chanolfannau adnoddau unigol ledled Cymru. Anfonodd arolygwyr holiaduron cynhwysfawr i bob AALl ac i'r canolfannau adnoddau unigol hefyd. Ymatebodd bron pob AALl. Ymwelodd arolygwyr â chwe awdurdod addysg lleol hefyd, cynhaliwyd trafodaethau ag uwch swyddogion ac fe wnaethant ymweld ag ystod o'r canolfannau adnoddau hyn sydd ynghlwm wrth ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn ystod eu hymweliadau, fe wnaethant gyfarfod â'r penaethiaid, yr athrawon a'r disgyblion.

- Ym mis Ionawr 2006, dosbarthwyd bod gan 39% o'r disgyblion ar y cofrestrau AAA mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru anawsterau dysgu cymedrol.

Mae copïau llawn o adroddiadau arolygu ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag:
Alexandra Doel
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464